



Galw Allan am Artist/iaid Arweiniol: Lantern Parade

Comisiynwyd Celfyddydau SPAN i gynnal digwyddiad gorymdaith llusernau ar raddfa fawr yn Hwlfordd yn Hydref 2024.

Nod yr orymdaith yw dod â'r gymuned ynghyd i ddathlu'r dref, ei phobl, a Sir Benfro. Bydd yr orymdaith a'i thema yn cael eu llunio gan y gymuned, ac rydym yn chwilio am artist/artistiaid arweiniol i ymuno â ni ar y daith hon.

Gan ddechrau gyda'r alwad agored i artistiaid a dewis cymunedol o thema, bydd yr ymgysylltiad yn parhau trwy raglen wedi'i thargedu, gan gynnwys gweithdai creu llusernau, a chomisiynau llusernau mawr. Bydd hyn oll yn dod i uchafbwynt yn yr orymdaith fawreddog ei hun - i gyfeiliant cerddoriaeth fyw ac yn gorffen gyda pherfformiad dathlu eiconig yn seiliedig ar olau, gan roi'r dref ar y map o ran ei hymrwymiad i ansawdd ac arloesedd a gadael etifeddiaeth o falchder a chysylltiad dinesig cynyddol

Mae SPAN yn chwilio am artistiaid i gyflwyno cysyniadau gweledol ar gyfer y digwyddiad gan ganolbwyntio ar ddylunio llusernau/pypedau ar raddfa fawr a fydd yn ganolbwynt i'r digwyddiad.

Y Broses:

Mae SPAN yn gweithio drwy gyd-greu gyda'r nod o osod llais y gymuned wrth wraidd y broses o wneud penderfyniadau. O'r alwad agored hon, cyflwynir rhestr fer o gynigion i'r gymuned i bleidleisio dros y cysyniad yr hoffent ei weld.

Caiff y rhestr fer ei dewis gan staff SPAN, a chynrychiolydd y cyllidwyr, a'r gymuned. Os bydd eich cynnig ar y rhestr fer i fynd i'r bleidlais gyhoeddus, cewch eich cefnogi gan dîm SPAN i ddatblygu set o ddelweddau i'r cyhoedd eu gweld. Bydd y bleidlais gyhoeddus yn cael ei chynnal ar-lein ac mewn cyfres o ddigwyddiadau cymunedol untro yn Hwlfordd

Yna bydd yr artist a ddewisir yn cael ei gomisiynu i weithio ochr yn ochr â SPAN i ddylunio, gwneud, a thrin y llusernau fel pypedau fel rhan o'r parêd.

Bydd disgwyl i'r artist arweiniol fod yn rhan o gyfarfodydd cynllunio a chwarae rhan weithredol gyda chydweithwyr creadigol eraill ar y digwyddiad megis perfformwyr, gwneuthurwyr ffilm, cerddorion a dylunwyr goleuo.

Beth mae'n rhaid i'ch cynnig ei gynnwys:

Cynnig:

Cais 50 gair a gaiff ei ddefnyddio yn y bleidlais gyhoeddus os bydd ar y rhestr fer.

Cysyniad:

Disgrifiad hirach o'r thema weledol, cysyniad neu stori gyffredinol a fydd yn hysbysu marchnata, hyrwyddo ac arddull ehangach y digwyddiad. Caiff hyn ei ddefnyddio yn y broses o greu rhestr fer. Gobeithiwn y bydd y syniadau yn cael rhywfaint o berthnasedd byd-eang, neu ehangach ac adlewyrchiad lleol cryf gyda'r bobl a'r lle.

Gweledol:

Cysyniad gweledol ar gyfer y llusern/pyped/au ar raddfa fawr a fydd yn ffurfio canolbwynt yr orymdaith ei hun. Rhaid i'r dyluniad fod yn gyraeddadwy, ac ymarferol a bydd yn cael ei greu a thrin fel pyped yn yr orymdaith gan yr artist a ddewisir fel rhan o'r comisiwn. Gallai'r rhain fod yn frasluniau, ffotograffau neu'n fwrdd syniadau, bydd y delweddau hyn yn cael eu defnyddio fel rhan o'r broses bleidleisio gyhoeddus ar y rhestr fer.

Bio:

'Bio' byr o'ch profiad o ddarparu gwaith ar y raddfa yma. Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio i gefnogi'r rhestr fer ac fel rhan o'r bleidlais gyhoeddus.

Gallai'r cynnig hefyd gynnwys:

Dyluniad syml y gellir ei ddyblygu ar gyfer llusern a ddelir yn y llaw ac y gellir ei greu gan y gymuned mewn gweithdai yn y cyfnod cyn yr orymdaith ei hun. Bydd cyflwyno'r gweithdai gwneud llusernau sy'n canolbwyntio ar y gymuned yn rhan o gomisiwn taledig ar wahân.

Ysbrydoliaeth neu awgrymiadau ar gyfer perfformiadau seiliedig ar oleuadau a fydd yn ddiweddglo i'r digwyddiad ar ddiwedd yr orymdaith gymunedol. Bydd y perfformiad hwn yn rhan o gomisiwn taledig ar wahân.

Cyllideb:

Cyfanswm y comisiwn ar gyfer dylunio, gwneud a thrin y llusernau / pypedau ar raddfa fawr gan gynnwys yr holl ddeunydd, cludiant a ffi yw £2,000.

Amserlen:

Dyddiad cau: 9 Mehefin

Cadarnhau'r rhestr fer: wythnos yn dechrau Mehefin 17

Pleidlais gyhoeddus: wythnos yn dechrau Mehefin 24, pleidlais ar agor am bythefnos, pleidlais yn cau Gorffennaf 7

Dyfarnu'r Comisiwn: wythnos yn dechrau Gorffennaf 8
Cyfnod creu Llusern/pyped/au: Gorffennaf - Hydref
Digwyddiad Parêd: Dywedd Hydref 2024

Sut i gyflwyno:

E-bostiwrch eich cynnig ysgrifenedig a delweddau ategol i info@span-arts.org.uk.

Fformatau amgen: os byddai'n fwy hygyrch gallwch gyflwyno cais fideo ynghyd â delweddau ategol, e-bostiwrch y ffeil fideo i info@span-arts.org.uk.

Os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cais cysylltwch â'n cynhyrchydd cymunedol Bethan Morgan ar info@span-arts.org.uk.

Gwybodaeth ychwanegol:

Mae llwybr yr orymdaith yn cael ei gwblhau nawr mewn cytundeb gyda Chyngor Sir Penfro. Bydd yn ymlwybro trwy strydoedd canol y dref yn Hwlfordd a gall gynnwys rhai darnau gyda llai o uchder neu led.

Bydd yr orymdaith yn cynnwys cannoedd o aelodau cymunedol o bosibl yn cerdded y llwybr ochr yn ochr â'r llusernau/pypedau a miloedd o bobl yn gwylio, rhaid ystyried eu diogelwch a'u mwynhad wrth gyflawni'r comisiwn.

Mae'r orymdaith yn ddigwyddiad awyr agored, ac mae angen i'r pypedau allu goroesi tywydd gwael posibl gan gynnwys gwynt a glaw.

Ariennir yr Orymdaith Llusernau gan Lywodraeth y DU ac Wedi'i Yrru gan Ffyniant Bro.

Nid oes lle i wneud na storio ar gael yng nghanol y dref felly bydd angen gwneud y llusernau/pypedau ar raddfa fawr oddi ar y safle a'u cludo i'r dref ac o'r dref ar ddiwrnod yr orymdaith.



Lead Artist/s Call Out: Lantern Parade

SPAN Arts has been commissioned to deliver a large-scale lantern parade event in Haverfordwest in October 2024.

The parade aims to bring the community together in celebration of the town, its people, and Pembrokeshire. The parade and its theme will be shaped by the community, and we are looking for a lead artist/s to join us on this journey.

Starting with the open call to artists and community choice of theme, the engagement will continue through a targeted program of lantern-making workshops, and large lantern commissions. All this will culminate in the grand parade itself accompanied by live music and ending with an iconic light-based celebratory performance, putting the town on the map in terms of its commitment to quality and innovation and leaving a legacy of increased civic pride and connection.

SPAN is looking for artists to pitch visual concepts for the event focusing on the design of large-scale lanterns/puppets that will be the centre point of the event.

Process:

SPAN works through co-creation and aims to place the voice of the community at the centre of the decision-making. From this open call, a shortlist of proposals will be presented to the community to vote on the concept they want to see.

The shortlist will be selected by SPAN staff, and representative of the funders, and the community. If your pitch is shortlisted to go to the public vote you will be supported by the SPAN team to develop a set of visuals for the public to view. The public vote will be done both online and at a series of community pop-ups in Haverfordwest.

The selected artist will then be commissioned to work alongside SPAN to design, make, and puppeteer the lanterns as part of the parade.

The lead artist will be expected to be part of planning meetings and play an active role with other creative collaborators on the event such as performers, filmmakers, musicians, and lighting designers.

What your pitch needs to include:

Pitch:

A 50-word pitch that will be used in the public vote if shortlisted.

Concept:

A longer description of the overall visual theme, concept, or story that will inform the wider marketing, promotion, and style of the event. This will be used in the shortlisting process. We hope that the ideas will have some global or wider relevance and strong local resonance with the people and place.

Visuals:

A visual concept for the large-scale lantern/puppet/s that will form the focus point of the parade itself. The design needs to be achievable, and practical and will be created and puppeteer by the selected artist at the parade as part of the commission. These could be sketches, photographs or an ideas board, these images will be used as part of the public voting process is shortlisted.

Bio:

A short bio of your experience of delivering work at the scale. This will be used both to support the shortlisting and as part of the public vote.

The proposal could also include:

A simple and replicable design for a handheld lantern that can be made by the community in workshops in the lead-up to the parade itself. The delivery of the community-focused lantern-making workshops will be part of a separate paid commission.

Inspiration or suggestions for a light-based performance that will be the finale of the event at the end of the community parade. This performance will be part of a separate paid commission.

Budget:

The total commission for the design, making, and puppeteering of the large-scale lantern/puppets including all material, transport, and fee is £2,000.

Time scale:

Call-out deadline: 9th June

Shortlist confirmed: week commencing 17th June

Public vote: week commencing 24th June, vote open for 2 weeks, vote closes 7th July

Commission awarded: week commencing 8th July

Lantern/puppet/s creation phase: July - Oct

Parade event: End of October

How to Submit:

Email your written proposal and supporting images to info@span-arts.org.uk.

Alternative formats: if it would be more accessible you can submit a video pitch plus supporting images, email the video file to info@span-arts.org.uk.

If you have any questions regarding the pitch contact Bethan Morgan Community producer at info@span-arts.org.uk.

Additional info:

The route of the parade is being finalised now in agreement with Pembrokeshire County Council. It will travel through the streets of central Haverfordwest and may include sections with reduced height or width.

The parade will involve potential 100's of community members walking the route alongside the largescale lanterns/puppets/s, and 1,000s of people watching, their safety and enjoyment must be considered in the delivery of this commission.

The parade is an outdoor event, and the puppets need to be able to survive potential bad weather including wind and rain.

The Lantern Parade is Funded by UK Government and Powered by Levelling Up.

There is no making or storage space available within the town centre so the large-scale lanterns/puppets will need to be made off-site and transported to and from the town on the day of the parade.